

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac  
Addysg  
**Adroddiad yr ymchwiliad i'r ddar-  
pariaeth o ran eiriolaeth statudol**

---

Chwefror 2017



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
[www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA](http://www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA)

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**  
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
**Bae Caerdydd**  
**CF99 1NA**

Ffôn: **0300 200 6565**

E-bost: **[SeneddPPIA@cynulliad.cymru](mailto:SeneddPPIA@cynulliad.cymru)**

Twitter: **[@SeneddPPIA](https://twitter.com/SeneddPPIA)**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac  
Addysg  
**Adroddiad yr ymchwiliad i'r ddar-  
pariaeth o ran eiriolaeth statudol**

---

Chwefror 2017



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

# Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Sefydlwyd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 28 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): addysg, iechyd a llesiant plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Lynne Neagle AC (Cadeirydd)**  
Llafur Cymru  
Torfaen



**Mohammad Asghar AC**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Dwyrain De Cymru



**Michelle Brown AC**  
UKIP Cymru  
Gogledd Cymru



**Hefin David AC**  
Llafur Cymru  
Caerffili



**John Griffiths AC**  
Llafur Cymru  
Dwyrain Casnewydd



**Llyr Gruffydd AC**  
Plaid Cymru  
Gogledd Cymru



**Darren Millar AC**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Gorllewin Clwyd



**Julie Morgan AC**  
Llafur Cymru  
Gogledd Caerdydd

---

# Cynnwys

01. Y cefndir .....	5
02. Tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.....	7
03. Safbwynt y Pwyllgor.....	15
04. Argymhellion y Pwyllgor .....	16
Atodiad A – Tystiolaeth lafar.....	17
Atodiad B - Tystiolaeth ysgrifenedig .....	18



# 01. Y cefndir

## Ein hymchwiliad

1. Ym mis Hydref 2016, penderfynodd y **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** gynnal ymchwiliad byr i **ddarpariaeth eiriolaeth statudol yng Nghymru**. Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i rai grwpiau o blant, yn benodol 'plant sy'n derbyn gofal', 'plant mewn angen' a 'rhai sy'n gadael gofal'. Mae darparu gwasanaeth eiriolaeth effeithiol yn helpu i ddiogelu plant a phobl ifanc, a'u hamddiffyn rhag niwed ac esgeulustod.
2. Yn ystod yr ymchwiliad, cafodd y Pwyllgor **16 o gyflwyniadau ysgrifenedig** a chynhaliodd sesiynau tystiolaeth gydag **8 o sefydliadau**, gan gynnwys Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad rhwng **dydd Mawrth 18 Hydref 2016 a dydd Gwener 11 Tachwedd 2016**.
3. Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi rhoi o'u hamser i gyfrannu at yr ymchwiliad hwn drwy roi tystiolaeth. Mae rhestr o'r rhai a gyflwynodd dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig wedi'i chynnwys yn Atodiad A.

## Cylch gorchwyl

4. Roedd **cylch gorchwyl** yr Ymchwiliad yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol a ganlyn:
  - Y sefyllfa ddiweddaraf o ran rhoi' o ran Eiriolaeth Statudol ar gyfer Plant a Phobl Ifanc ar waith;
  - Materion eraill sy'n berthnasol i gomisiynu a chyllido darpariaeth o ran eiriolaeth statudol;
  - Effaith Rhan 10 o Fil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;
  - Nodi meysydd blaenoriaeth eraill lle y mae angen gwneud cynnydd o ran darparu gwasanaethau eiriolaeth.

## Pam y mae'r Pwyllgor yn edrych ar y mater hwn

5. Mae ddyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau eiriolaeth i rai grwpiau o blant, yn benodol 'plant sy'n derbyn gofal', 'plant mewn angen' a 'rhai sy'n gadael gofal', a oedd yn ddyletswydd statudol o dan *Ddeddf Plant 1989* i ddechrau. Yn fwy diweddar, mae'r ddyletswyddau hyn wedi cael eu cynnwys yn *Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014*. Mae **Cod ymarfer ar Eiriolaeth** sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf ac yn nodi ddyletswyddau awdurdodau lleol o dan y Ddeddf. Mae wedi bod mewn grym ers mis Ebrill 2016. Rhaid i awdurdodau lleol weithredu'n unol ag unrhyw ofynion a nodir yn y Cod.
6. Mae **ystadegau** diweddaraf Llywodraeth Cymru yn nodi bod 28,105 o blant a allai fod yn gymwys i gael gwasanaethau eiriolaeth statudol yn 2016. O'r rhain, roedd 5,660 yn blant sy'n derbyn gofal; roedd 3,060 ar y gofrestr amddiffyn plant; ac roedd 19,385 yn blant mewn angen.

7. Rhwng 2008 a 2012, cyhoeddodd Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc y Trydydd Cynulliad dri adroddiad<sup>1</sup> a gwnaeth nifer o argymhellion a galwadau niferus ynghylch darparu gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a grwpiau agored i niwed eraill o blant.

8. Rhwng 2012 a 2014 cyhoeddodd y Comisiynydd Plant ar y pryd dri adroddiad hefyd, a gwnaeth gyfres o argymhellion mewn perthynas â gwasanaethau eiriolaeth statudol.<sup>2</sup> Roedd hyn yn dilyn adroddiad a gyhoeddwyd yn 2003, a oedd yn cynnwys adolygiad o'r ddarpariaeth o ran eiriolaeth.<sup>3</sup>

### **Y cynnig ar gyfer 'Dull Cenedlaethol o ran Gwasanaethau Eiriolaeth Statudol'**

9. Arweiniodd yr adroddiadau a gyhoeddwyd gan y Comisiynydd Plant at gyflawni gwaith gan Lywodraeth Cymru ac at sefydlu Grŵp Arbenigol Gweinidogol ar Eiriolaeth yn 2013, i ddatblygu cynnig ar gyfer 'Dull Cenedlaethol o ran Gwasanaethau Eiriolaeth Statudol'. Yn 2014 gofynnodd Llywodraeth Cymru i gynrychiolwyr o lywodraeth leol gyflwyno cynigion ar gyfer 'Dull Cenedlaethol'. 'Tua diwedd 2015'<sup>4</sup> roedd Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi datblygu achos busnes ar ei gyfer.

10. Pan ddechreuodd y Pwyllgor ar ei Ymchwiliad ym mis Hydref 2016, nid oedd y 'dull' hwn wedi cael ei gyhoeddi ac nid oedd cytundeb ar y dull o'i roi ar waith. Dywedodd Llywodraeth Cymru a Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ill dau wrth y Pwyllgor y cytunwyd ar 'achos busnes' ar gyfer y 'Dull Cenedlaethol' ar ddiwedd 2015.

11. Mewn ymateb i alwad y Pwyllgor am dystiolaeth ar yr hyn a ddylai gael blaenoriaeth yn ystod y Pumed Cynulliad, cyfeiriodd rhai rhanddeiliaid at y diffyg cynnydd i gyflawni'r 'Dull Cenedlaethol o ran Eiriolaeth Statudol', gydag un yn cyfeirio at y mater fel 'blaenoriaeth frys'. Dywedwyd wrth y Pwyllgor, er bod gwaith yn mynd rhagddo ers peth amser, roedd angen cadarnhad o hyd ynghylch a fyddai awdurdodau lleol yn defnyddio'r 'Dull Cenedlaethol'.

---

<sup>1</sup>Adroddiad ar Wasanaethau Eiriolaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc 2008; Craffu ar ddatblygiadau mewn perthynas â darpariaeth gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru 2009; Adolygiad pellach o ddatblygiadau yn narpriaeth gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc Medi 2010.

<sup>2</sup>Lleisiau coll 2012; Lleisiau Coll, Cynnydd Coll 2013; Lleisiau Coll: Yr hawl i gael eu clywed 2014.

<sup>3</sup>Datgan Pryderon

<sup>4</sup>GLLC / CCGC; tystiolaeth ysgrifenedig SAP04



## 02. Tystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor

**12.** Cafodd y Pwyllgor 16 o ymatebion ysgrifenedig i'w alwad am dystiolaeth. Pwysleisiodd yr ymatebwyr pam mae gwasanaethau eiriolaeth yn hanfodol i blant cymwys. Pwysleisiodd Tros Gynnal Plant ac eraill y dylai darpariaeth gwasanaeth o ran eiriolaeth statudol gael ei hystyried fel dull diogelu pwysig. Dywedodd y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuentid Cenedlaethol (NYAS Cymru) wrth y Pwyllgor fod argymhellion yn adroddiad Waterhouse sy'n nodi bod eiriolaeth annibynnol yn 'sylfaenol i amddiffyn plant'. Aeth ymlaen i ddweud:

“Statutory advocacy is fundamentally a provision to protect and safeguard the most vulnerable children and young people in Wales. We must not lose sight into the history of why advocacy is so critical in Wales which was a direct result of many children being abused whilst in the care of local authorities. The recommendations from Sir Ronald Waterhouse report; “Lost in Care” are still as relevant today as it was in 2000.”<sup>5</sup>

**13.** Dywedodd yr Athro Sally Holland, y Comisiynydd Plant, ei barn wrth y Pwyllgor ynghylch pam y mae gwasanaethau eiriolaeth yn bwysig, gan ddweud:

“I want to emphasise that, really, it's not an optional extra; it's an absolute necessary safeguard for our most vulnerable children in Wales. I think we've seen from Waterhouse through many inquiries—Rotherham is another one—where children's voices have really been overshadowed when they've been at their most vulnerable. So, it's certainly not an optional extra. Of course, it's a required and statutory element of our social services provision.”<sup>6</sup>

**14.** Aeth yr Athro Holland ymlaen i ddweud:

“Children have reported to my office over a number of years that they don't all know what advocacy is and don't all know how to access it and that they're not reminded at the right times that they have the right to an advocate.”

### Oedi o ran rhoi'r Dull Cenedlaethol ar waith

**15.** Mae nifer o ymatebwyr yn awgrymu bod oedi rhwystredig ac annerbyniol wedi bod o ran cytuno ar 'Dull Cenedlaethol o ran Gwasanaethau Eiriolaeth Statudol' a'i roi ar waith. Nodwyd hefyd bod yr oedi hwn yn gwaethygu ymhellach y pryderon difrifol am sefyllfa'r gwasanaethau eiriolaeth yn y 16 mlynedd ers cyhoeddi Adroddiad Waterhouse yn 2000. Dywed Tros Gynnal Plant, ei fod wedi bod yn dyst i “gyfres o fentrau sydd wedi methu â datrys y mater”.<sup>7</sup>

**16.** Gan gyfeirio at oedi wrth ddatblygu'r 'Dull Cenedlaethol', dywedodd y corff Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan wrth y Pwyllgor eu bod yn “bryderus iawn ynglŷn â'r sefyllfa yr ydym ynddi heddiw o ran y cynllun gweithredu, fel y deallwn ef”.<sup>8</sup> Dywedodd hefyd:

<sup>5</sup> Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuentid Cenedlaethol (NYAS Cymru); [tystiolaeth ysgrifenedig](#) NAS14

<sup>6</sup> Comisiynydd Plant Cymru; [tystiolaeth lafar](#) 24 Tachwedd 2016

<sup>7</sup> Tros Gynnal Plant; [tystiolaeth ysgrifenedig](#) SAP03

<sup>8</sup> Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan; [tystiolaeth lafar](#) 16 Tachwedd 2016

---

“... despite the shared vision for quality, accessible and sustainable advocacy structures for children and young people throughout Wales, progress in addressing some the issues raised in previous Committee enquiries and by children and young people as recipients of advocacy services have been painfully slow.”<sup>9</sup>

---

**17.** Cyfeiriodd y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS Cymru) at y diffyg cynnydd o ran cytuno ar y cynllun ar gyfer y ‘Dull Cenedlaethol’ a dywedodd:

---

“This work is still yet to be implemented or agreed by ADSS, Local Authorities and Welsh Government which has resulted in current advocacy contracts being renewed on short term basis with inadequate funding, lack of accessibility and confusion amongst local authorities on what the current status is. Many commissioners ask NYAS as providers to tell them what is happening as they inform us they do not know.”<sup>10</sup>

---

**18.** Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, dywedodd yr Athro Sally Holland wrth y Pwyllgor ei bod yn teimlo’n rhwystredig oherwydd yr amser y mae wedi’i gymryd i ymgymryd â’r gwaith sydd i’w wneud, a’r segurddod o ran cynnydd y Dull Cenedlaethol a welwyd yn sgîl hynny. Dywedodd fod cynnydd o ran gweithredu’r ‘Dull Cenedlaethol’ wedi cyrraedd ‘sefyllfa amhosibl’ ac nad oedd “cynllun gweithredu cadarn ar waith”.<sup>11</sup> Dywedodd wrth y Pwyllgor hefyd:

---

“From as far back as the Waterhouse Report “Lost in Care” in 2000, advocacy has featured as an area of concern in reports and inquiries on many separate occasions but I regret to say that meaningful and lasting change for children and young people has yet to be achieved. The opportunity presented by the implementation of the national approach is one that should be grasped, to improve children’s outcomes. However I am frustrated by the lack of progress despite sustained efforts by my office and others to ensure this essential safeguarding service is available to everyone who is entitled to it.”<sup>12</sup>

---

**19.** Dywedodd y Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan wrth y Pwyllgor nad oedd wedi gweld y cynllun gweithredu ar gyfer y “Dull Cenedlaethol” a’i fod yn “ansicr ynghylch yr amserlenni ar gyfer cyhoeddi’r cynllun hwn neu’r amserlenni diwygiedig ar gyfer ei weithredu’n llawn”. Aeth ymlaen drwy ddweud bod angen “cyfathrebu â rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys comisiynwyr gwasanaethau eiriolaeth yn lleol, a phlant / pobl ifanc sydd ei angen, a hynny ar frys”.<sup>13</sup>

**20.** Clywodd y Pwyllgor hefyd fod tystiolaeth bod rhai awdurdodau lleol eisoes wedi’u cymell a’u bod yn ceisio symud ymlaen a pharatoi eu hunain ar gyfer y model gweithredu, a bod ‘cynnydd da’<sup>14</sup> wedi’i wneud, er enghraifft mewn un ardal, o ran contractau ar gyfer tendro.

---

<sup>9</sup> Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan; [tystiolaeth ysgrifenedig](#) SAP10

<sup>10</sup> Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS Cymru); [tystiolaeth ysgrifenedig](#) NAS14

<sup>11</sup> Comisiynydd Plant Cymru; [tystiolaeth ysgrifenedig](#) SAP15

<sup>12</sup> Ibid

<sup>13</sup> Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan; [tystiolaeth ysgrifenedig](#) SAP10

<sup>14</sup> Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan; [tystiolaeth lafar](#) 16 Tachwedd 2016

## Cynnydd diweddar

**21.** Yn ystod ei ymchwiliad, clywodd y Pwyllgor am y cynnydd diweddar iawn a wnaed o ran cytuno ar y 'Dull Cenedlaethol' a bwrw ymlaen âg ef. Croesawodd y Comisiynydd Plant y cynnydd diweddar yn ofalus.

**22.** Mewn llythyr at y Pwyllgor ar 8 Tachwedd 2016, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant y bydd "y broses weithredu'n cael ei harwain gan Lywodraeth Leol, yn unol â'r cynllun gweithredu y maent yn datblygu", ac y bydd hwn ar gael erbyn 24 Tachwedd, 2016. Nododd hefyd:

---

"Rwy'n disgwyl gweld cynnydd sylweddol o ran symud ymlaen gyda'r Dull Cenedlaethol pan fydd y cynllun gweithredu yn ei le yn ddiweddarach y mis hwn. [...] Rwyf bellach wedi gweld copi drafft o'r cynllun gweithredu, sy'n mynd i gael ei gyflwyno i'r pwyllgor hwn erbyn diwedd yr wythnos hon rwy'n credu. Roedd yn parhau ar ffurf drafft nes y cytunwyd arno y bore yma mewn cyfarfod a alwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet â Phrif Weithredwr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cadeirydd y Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol a minnau – pan gytunwyd arno, gyda rhai newidiadau. Rwy'n credu y caiff ei gyflwyno ger eich bron chi yfory."

---

**23.** Mewn tystiolaeth lafar ar 24 Tachwedd 2016, dywedodd yr Athro Sally Holland wrth y Pwyllgor:

---

"There has been some progress this week, including today, which I will update you on, as a committee."<sup>15</sup>

---

**24.** Aeth ymlaen i ddweud:

---

"The implementation plan suggests that the national approach will go forward at a regional level and that it will be possible to have it completely in place—so, not just a commissioning process going out, but actually in place—by June 2017, which is when the last commissioned service in one of the regions will have ended. I have pressed the point this week, including this morning, that I would like to see evidence of active sign-up by every local authority on that. So, I've been informed, with some confidence—and I hope that confidence is warranted—by the WLGA and ADSS that there's no dissent from any local authorities in taking this forward, but I would like to see an active sign-up. The Cabinet Secretary did ask for that today, and said that he would be actively pursuing that if it wasn't forthcoming.

...

So, we heard today from the chief executive of the Welsh Local Government Association that all the leaders of the councils are meeting for a routine meeting tomorrow, and he pledged to get commitment from all the leaders at that meeting tomorrow."<sup>16</sup>

---

<sup>15</sup> Comisiynydd Plant Cymru; tystiolaeth lafar 24 Tachwedd 2016

<sup>16</sup> Ibid

**25.** Yna, dywedodd yr Athro Holland wrth y Pwyllgor y bydd “yn wir yn siomedig iawn os na fydd y Dull Cenedlaethol ar waith gennym erbyn mis Mehefin yn 2017”.

**26.** Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd cynrychiolwyr o Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru / Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth y Pwyllgor:

“We want to provide you with realistic reassurance today, in relation to the plan that’s in place ...”<sup>17</sup>

They went on to say:

“... I think we can now confidently come to you, Chair, and say that this implementation plan is realistic, it’s robust, and that it will be delivered.”<sup>18</sup>

**27.** Gan gyfeirio at yr amserlen, dywedasant:

“We are quite sure that this national approach will be in place by June 2017, and clearly we’ve got to tackle things around existing contracts, and getting out of those existing contracts to bring those regional advocacy services together, because that’s part of the national approach.”<sup>19</sup>

**28.** Pan ofynnwyd a all canlyniad yr etholiadau llywodraeth leol yn 2017 gael effaith bosibl ar yr ymrwymiad i fwrw ymlaen â’r dull gweithredu, dywedodd cynrychiolwyr Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru / CLILC:

“... most of these exercises will be overseen by the regional partnerships boards. They are places where decisions can be made without necessarily needing cabinet endorsement or to go through scrutiny committees. From our point of view, it’s a commissioning exercise. If the money is there and everybody is signed up to the approach without dissent, then there’s no reason why they can’t proceed.”<sup>20</sup>

**29.** Mewn tystiolaeth lafar ar 14 Rhagfyr 2016, dywedodd Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant y Pwyllgor, yn dilyn ei gyfarfod â Chymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol / CLILC ei fod wedi cael gohebiaeth ganddynt a oedd yn ‘llythyr cadarnhaol iawn, a oedd yn dangos eu hymrwymiad’. Aeth ymlaen i ddweud:

“I can give my personal commitment. I’m very serious about making sure this happens because I realise actually there are two areas: this is morally right to do, but also fiscally right. The moral reasons are well rehearsed, about why you should do this and why they should be available. But actually, for Governments and public bodies, there are long term fiscal savings if we get this right early on. It makes sense to do it. So, I’m absolutely committed to doing that and actually, the legislation surrounding this—the well-being of future generations Act and the social services Act—embed this principle of making sure that we

<sup>17</sup> GCGC / CLLC; **tystiolaeth lafar** 30 Tachwedd 2016

<sup>18</sup> Ibid

<sup>19</sup> Ibid

<sup>20</sup> Ibid

do these things. It's about making sure that our partner agencies are also in the same place.”<sup>21</sup>

**30.** Pan ofynnwyd a oedd yna 'gynllun wrth gefn' neu 'sanctsiynau' yn eu lle pe bai awdurdod lleol yn dewis peidio ag ymrwymo, dywedodd Carl Sargeant:

“Yes, there are, and the local government Minister has been very keen in terms of his discussions with local authorities on saying how there is an expectation for some services to be delivered on a statutory basis. This could be one of those services.”<sup>22</sup>

**31.** Aeth ymlaen i ddweud:

“I can't have any more confidence on this. I was very clear at the meeting with the Welsh Local Government Association that there are sanctions if there's failure to deliver.”<sup>23</sup>

**32.** Daeth Cadeirydd y Pwyllgor â'r sesiwn dystiolaeth i ben drwy ofyn i Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau y byddai'r 'Dull Cenedlaethol' yn weithredol erbyn mis Mehefin 2017. Dywedodd Carl Sargeant AC:

“The information I have been given by the providers—by the commissioners from local authorities—would indicate that is correct, Chair. I expect this to be fully implemented by June 2017. I've asked, if there are any problems arising up to that date, by the WLGA, for them to inform me immediately. I will keep the committee informed if there is a problem with that as well”<sup>24</sup>

## Ei roi ar waith

**33.** Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor bod yna nifer o elfennau allweddol i'r 'Dull Cenedlaethol'. Dywedodd Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan wrth y Pwyllgor:

“Each component of the National Approach is of equal importance. We would not wish to see any dilution from what was agreed and proposed, and continue to support all components of the National Approach being developed as set out in the Task and Finish Groups Business Case report. There is a need for a clear commitment to meet the funding obligations of the National Approach business plan in full.”<sup>25</sup>

**34.** Pwysleisiodd Sally Holland hefyd fod angen i'r dull gael ei weithredu'n llawn, a dywedodd:

“Throughout the work of developing a national approach, it has been reiterated that the approach has to be considered to be a single overarching entity, made up of the component parts as above. To pick and choose from the available tools would not be following a consistent National Approach and would not

<sup>21</sup> Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant; [tystiolaeth lafar](#) 14 Rhagfyr 2016

<sup>22</sup> Ibid

<sup>23</sup> Ibid

<sup>24</sup> Ibid

<sup>25</sup> Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan; [tystiolaeth ysgrifenedig](#) SAP10

result in the delivery and monitoring of the Active Offer of advocacy that we have repeatedly called for, most recently in my annual report published in October 2016.”<sup>26</sup>

**35.** Dywedodd y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol wrth y Pwyllgor:

“The delay in progressing the National Approach to Statutory Advocacy has meant that the revised National Standards and Outcomes Framework, developed as a key component of the National Approach and mapped to the Well-Being Statement, has yet to be made available and issued for public consultation.”<sup>27</sup>

**36.** Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Carl Sargeant wrth y Pwyllgor y bydd y ‘Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Cenedlaethol’ yn barod i’w weithredu o fis Mehefin 2017 ymlaen. Dywedodd hefyd y byddai’r Côt Ymarfer ar Eiriolaeth sy’n cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu’r ‘Dull Cenedlaethol’.<sup>28</sup>

## Cyllid

**37.** Ystyriodd y Pwyllgor i ba raddau y mae ystyriaethau ariannol wedi bod yn rhwystr i weithredu’r ‘Dull Cenedlaethol’. Caiff y Gwasanaethau Eiriolaeth eu hariannu drwy’r Grant Cynnal Refeniw. Cyfeiriodd Dr Mike Shooter, cyn gadeirydd Grŵp Arbenigol Gweinidogol ar Eiriolaeth Llywodraeth Cymru at y gwaith a wnaed gan y grŵp, a dywedodd wrth y Pwyllgor mai’r canfyddiad mwyaf trawiadol ac uniongyrchol oedd yr amrywiad enfawr yn y swm o arian y mae awdurdodau lleol yn ei wario ar eu dyletswydd statudol o ran eiriolaeth.

**38.** Adleisiodd Sally Holland y pwynt hwn gan ddweud:

“I think, historically, we have seen a very varied service. So, if you look at spend per looked-after child—or eligible child, rather—there’s been a huge range by the local authorities, which means that, in moving towards this national approach, each of them has got a different journey to go on. So, some actually were already spending more than the national approach would suggest and some will have to spend considerably more. So, my understanding has been that there’s been quite a political process to go through in the different local authorities to reach the point when they’re all ready to sign up.”<sup>29</sup>

**39.** Dywedodd cynrychiolwyr o Gymdeithas Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol / Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrth y Pwyllgor:

“Ultimately, resources will have an impact on what advocacy services are commissioned and the current financial climate means that we have to be realistic about the expectations being placed on local authorities, without additional funding being provided.”<sup>30</sup>

<sup>26</sup> Comisiynydd Plant Cymru; [tystiolaeth ysgrifenedig](#) SAP15

<sup>27</sup> Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS Cymru); [tystiolaeth ysgrifenedig](#) NAS14

<sup>28</sup> Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant; [tystiolaeth lafar](#) 14 Rhagfyr 2016

<sup>29</sup> Comisiynydd Plant Cymru; [tystiolaeth lafar](#) 24 Tachwedd 2016

<sup>30</sup> GLLC / CCGC; [tystiolaeth ysgrifenedig](#) SAP04



**40.** Fodd bynnag, dywedwyd wrth y Pwyllgor hefyd bod “Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ei hymrwymiad i ddarparu cyllid newydd i gyfrannu at y ddarpariaeth o ran eiriolaeth broffesiynol annibynnol, ac i’w chefnogi, gan gynnwys costau’r cynnig gweithredol yn llawn ...”<sup>31</sup>

**41.** Dywedodd Sally Holland na welwyd arian gan Lywodraeth Cymru eto “oherwydd diffyg cynnydd o ran cytuno ar y dull”.<sup>32</sup> Dywedodd hefyd nad oedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru eto wedi rhoi arian sy’n cyfateb i’r adnoddau a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer ei roi ar waith.<sup>33</sup>

**42.** Dywedodd cynrychiolwyr o Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan wrth y Pwyllgor:

“... it is very much underfunded, but the demand is there and we are struggling to meet the demand, and I do believe that there are a lot of young people who are not hearing about advocacy, and that’s where the active offer would come in ...”<sup>34</sup>

**43.** Dywedwyd wrth y Pwyllgor bod gweithredu’r Dull Cenedlaethol wedi cael ei gostio ar rhwng £1 a £1.1 miliwn, gan gynnwys y ‘cynnig gweithredol’, a bod Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £500,000 – £550,000 tuag at y costau hyn.<sup>35</sup>

**44.** Yn ei lythyr at y Pwyllgor, dyddiedig 8 Tachwedd 2016, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant wrth y Pwyllgor:

“Er mwyn cydnabod bod y cynnig gweithredol yn ychwanegol at y darpariaethau presennol a nodir yn y ddeddfwriaeth mae Llywodraeth Cymru wedi cytuno i dalu costau llawn y cynnig gweithredol. Rhoddir ystyriaeth lawn o’r lefel 0 gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru pan fydd y cynllun gweithredu yn cael ei dderbyn.”

**45.** Mewn tystiolaeth lafar, holwyd cynrychiolwyr o Gymdeithas y Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol / Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am y £500,000 yn fras y bydd angen i awdurdodau lleol ei ariannu drwy’r Grant Cynnal Refeniw, i weithredu’r ‘Dull Cenedlaethol’ yn llawn. Dywedasant wrth y Pwyllgor:

“Inevitably, there is competition for any resources that may be available, but we do have a commitment from local government that the national approach will be implemented in full.”<sup>36</sup>

**46.** Aethant ymlaen i ddweud:

“... the commitment has been made by directors of social services, by cabinet members, and lastly by the leaders of all the local authorities in Wales in the

<sup>31</sup> GLLC / CCGC; [tystiolaeth ysgrifenedig](#) SAP04

<sup>32</sup> Comisiynydd Plant Cymru; [tystiolaeth ysgrifenedig](#) SAP15

<sup>33</sup> Ibid

<sup>34</sup> Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan; [tystiolaeth lafar](#) 16 Tachwedd 2016

<sup>35</sup> Comisiynydd Plant Cymru; [tystiolaeth lafar](#) 24 Tachwedd 2016

<sup>36</sup> GCGC / CLLC; [tystiolaeth lafar](#) 30 Tachwedd 2016

WLGA meeting. So, I think there is that level of commitment to finding the additional cost.”<sup>37</sup>

---

**47.** Dywedodd Carl Sargeant wrth y Pwyllgor:

“We’ve had some protracted discussions with local authorities about the amount of funding that they have received in the past and where that it is now.”<sup>38</sup>

---

**48.** Dywedodd wrth y Pwyllgor hefyd nad yw’n fwriad ganddo yn y tymor hwy i neilltuo’r cyllid ychwanegol yr oedd Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu i awdurdodau lleol, ond dywedodd eto mai ei fwriad oedd mai cyllid rheolaidd fydd hwn. Dywedodd hefyd na fyddai unrhyw gyllid ychwanegol yn cael ei ddarparu i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru at y diben penodol hwnnw.

### **Materion eraill**

**49.** Mae llinell gymorth **MEIC** yn darparu gwasanaeth eiriolaeth anstatudol cyffredinol i blant a phobl ifanc. A hithau wedi’i hariannu gan Lywodraeth Cymru, mae hon yn llinell wybodaeth a chefnogaeth genedlaethol, sy’n darparu un pwynt cyswllt dros y ffôn neu drwy neges destun. Dywedodd ProMo-Cymru, sy’n cynnal y llinell gymorth, wrth y Pwyllgor ei fod yn cael ei ‘arfer’ gan y ffaith nad oes cyfeiriad at MEIC o fewn y Dull Cenedlaethol. Dywedodd y Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan wrth y Pwyllgor:

“The role of the Welsh Government funded MEIC Helpline did not feature in the Business Case report. The potential role for this independent, bilingual, telephone/on-line service as part of a new commissioning framework has not yet been fully explored.”<sup>39</sup>

---

**50.** Anfonodd ProMo Cymru ragor o wybodaeth mewn llythyr ar 13 Rhagfyr 2016, lle’r oeddent yn dweud y byddent yn croesawu “unrhyw gyfle i gymryd rhan mewn trafodaeth agored ac uniongyrchol i sicrhau eglurder”, a lle y cyfeiriwyd at “sut y gallai potensial llawn Meic gael ei ddefnyddio i sicrhau gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc fel rhan o’r tirlun eiriolaeth statudol yn ogystal ag yn fwy cyffredinol”.

**51.** Awgrymodd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi safonau gofynnol ar gyfer gwasanaethau eiriolaeth, sy’n cymryd anghenion penodol plant a phobl ifanc fyddar i ystyriaeth.

**52.** Hefyd, nododd y Comisiynydd Plant bwysigrwydd eiriolaeth ar gyfer grwpiau penodol o blant “pan fydd yn hawdd gweld eu bod yn debygol o wynebu rhwystrau rhag cymryd rhan yn llawn o ran gwneud penderfyniadau” fel plant â phroblemau iechyd meddwl, a’r rhai ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae hi hefyd yn cefnogi comisiynu ar sail genedlaethol ar gyfer mathau arbenigol o wasanaethau eiriolaeth, fel, ar gyfer plant sy’n ceisio lloches.

---

<sup>37</sup> Ibid

<sup>38</sup> Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant; **tystiolaeth lafar** 14 Rhagfyr 2016

<sup>39</sup> Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan; **tystiolaeth ysgrifenedig** SAP10



### 03. Safbwynt y Pwyllgor

- 53.** Mae'r Pwyllgor yn credu bod eiriolaeth annibynnol statudol yn wasanaeth hanfodol, a'i fod yn hanfodol er mwyn amddiffyn a diogelu rhai o'r plant mwyaf agored i niwed yng Nghymru. Mae'n hanfodol bod plant a phobl ifanc cymwys yn cael y gwasanaethau hyn, a'u bod yn llwyr ymwybodol bod y gwasanaethau'n bodoli i gynorthwyo i'w barn, eu dymuniadau a'u pryderon gael eu clywed.
- 54.** Amlygodd Adroddiad Ymchwiliad Waterhouse, a gyhoeddwyd yn 2000, bwysigrwyd y ffaith bod plant sy'n derbyn gofal yn gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol. Canfu'r Adroddiad nad oedd neb wedi gwrandao ar ddiodefwyr degawdau o gam-drin rhywiol a chorfforol eang o blant mewn cartrefi gofal yng Ngogledd Cymru nac wedi'u credu. Mae'r Pwyllgor yn pryderu, er gwaethaf y gyfres o adroddiadau ac argymhellion dros gyfnod o flynyddoedd ers cyhoeddi Adroddiad Waterhouse, nid oes Dull Cenedlaethol y cytunwyd arno, nac a roddwyd ar waith o hyd, ar gyfer darparu gwasanaethau eiriolaeth yng Nghymru, ac mae'n siomedig am hyn.
- 55.** Mae'n hanfodol bod gwasanaethau eiriolaeth ar gael ar gyfer plant heddiw. Mae'r honiadau newydd aml o gam-drin hanesyddol yn ein hatgoffa bod y gwasanaethau hyn yn hanfodol. Gall eiriolwr proffesiynol annibynnol gefnogi plant a phobl ifanc, sicrhau bod clust i wrando arnynt, a'u hamddiffyn yn well.
- 56.** Mae'n amlwg, hyd yma, na chafwyd yr ysgogiad a'r penderfyniad yr oedd ei angen i sicrhau bod y Dull Cenedlaethol yn cael ei roi ar waith ar draws Cymru. Rydym yn croesawu, yn ofalus, ei bod yn ymddangos bod cynnydd sylweddol wedi digwydd o ran cytuno ar gynllun gweithredu ar gyfer y dull gweithredu hwn yn ystod ein Hymchwiliad. Rydym hefyd yn falch bod ymrwymadau wedi cael eu gwneud i'r Pwyllgor gan y cynrychiolwyr o lywodraeth leol a chan Ysgrifennydd y Cabinet i sicrhau bod hyn yn cael ei wireddu.
- 57.** Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn pryderu am gyflymder y cynnydd a wnaed hyd yma. Mae'r 'troi yn yr unfan' o ran y gwasanaethau eiriolaeth yn annerbyniol. Roeddem hefyd yn siomedig iawn o glywed nad yw awdurdodau lleol eto wedi gweld y cyllid ychwanegol y cytunodd Llywodraeth Cymru i'w ddarparu, a hynny o ganlyniad i ddiffyg cynnydd wrth gytuno ar y dull gweithredu.
- 58.** Nodwn fod y Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan wedi dweud wrthym y gall fod angen ystyried gwasanaeth eiriolaeth cenedlaethol os nad yw'r 'Dull Cenedlaethol' presennol yn fodel effeithiol ar gyfer cyflenwi'r gwasanaeth. Mae Comisiynydd Plant Cymru hefyd wedi dweud wrthym, os nad yw'r cynllun gweithredu yn foddhaol ar gyfer rhoi'r 'Dull Cenedlaethol' llawn ar waith, bydd angen i Lywodraeth Cymru symud yn gyflym i weithredu model comisiynu cenedlaethol. Felly, byddwn yn monitro'r cynnydd a wneir dros y chwe mis nesaf yn agos, ac yn clywed rhagor o dystiolaeth yn ôl yr angen.

## 04. Argymhellion y Pwyllgor

59. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn:

**Argymhelliad 1.** Monitro a sicrhau bod pob awdurdod lleol wedi ymrwymo'n weithredol i'r 'Dull Cenedlaethol' erbyn mis Ionawr 2017.

**Argymhelliad 2.** Monitro a sicrhau bod awdurdodau lleol yn rhoi'r 'Dull Cenedlaethol' ar waith yn llawn erbyn mis Mehefin 2017, yn unol â'r amserlen yn y Cynllun Gweithredu.

**Argymhelliad 3.** Diweddarau'r Cod Ymarfer ar Eiriolaeth sy'n cyd-fynd â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 i adlewyrchu'r 'Dull Cenedlaethol'.

**Argymhelliad 4.** Monitro gwariant yr awdurdodau lleol ar wasanaethau eiriolaeth statudol yn flynyddol, a sicrhau bod y gwasanaethau'n cael eu hariannu yn unol â'r asesiad dadansoddi anghenion y boblogaeth.

**Argymhelliad 5.** Ei bod yn ymgynghori ar ddrafft ac yn cyhoeddi Fframwaith Safonau a Chanlyniadau Eiriolaeth Annibynnol Cenedlaethol terfynol, sy'n cynnwys dull gweithredu o ran y 'cynnig gweithredol' erbyn mis Mehefin 2017.

**Argymhelliad 6.** Comisiynu adolygiad annibynnol o gynnydd ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf y bydd y 'Dull Cenedlaethol' ar waith.

**Argymhelliad 7.** Adolygu sut y mae llinell gymorth MEIC Cymru yn cyd-fynd â'r Dull Cenedlaethol ac yn sicrhau bod ymgysylltiad effeithiol rhwng gwasanaethau eiriolaeth statudol a darpariaeth eiriolaeth gyffredinol, i wneud y defnydd mwyaf effeithlon posibl o adnoddau ac o'r amrywiaeth o ddarpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc fel rhan o'r cynnig gweithredol.

**Argymhelliad 8.** Darparu diweddariad manwl i'r Pwyllgor ar y cynnydd o ran gweithredu 'Dull Cenedlaethol' ym mis Mehefin 2017.

# Atodiad A - Tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yma: [trawsgrifiadau Cyfarfod](#).

<b>Dyddiad</b>	<b>Enw a sefydliad</b>
16 Tachwedd 2016	Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan.  Deborah Jones, Prif Weithredwr, Voices From Care  Jackie Murphy, Prif Weithredwr, Tros Gynnal Plant  Sean O'Neill, Cyfarwyddwr Polisi, Plant yng Nghymru  Emma Phipps-Magill, Rheolwr Gwasanaeth - NYAS Cymru
24 Tachwedd 2016	Sally Holland, Comisiynydd Plant Cymru  Hywel Dafydd, Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus  Rachel Thomas, Swyddog Polisi
30 Tachwedd 2016	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru  Phil Evans, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, Bro Morgannwg  Tanya Evans, Pennaeth y Gwasanaethau Plant ym Mlaenau Gwent a Chadeirydd Penaethiaid Gwasanaethau i Blant Cymru Gyfan
14 Rhagfyr 2016	Carl Sargeant AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant  Albert Heaney, Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio  Alistair Davey, Dirprwy Gyfarwyddwr - Galluogi Pobl

## Atodiad B - Tystiolaeth ysgrifenedig

<b>Cyfeirnod</b>	<b>Sefydliad</b>
SAP 01	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
SAP 02	ProMo-Cymru
SAP 03	Tros Gynnal Plant
SAP 04	Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru / Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
SAP 05	SNAP Cymru
SAP 06	Cymdeithas y Plant
SAP 07	Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda
SAP 08	Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar:
SAP 09	Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant - Ymchwiliad i Eiriolaeth Statudol
SAP 10	Grŵp Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru Gyfan.
SAP 11	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
SAP 12	Cyngor Gofal Cymru
SAP 13	Mike Shooter
SAP 14	Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol (NYAS Cymru)
SAP 15	Comisiynydd Plant Cymru
SAP 16	Llywodraeth Cymru